

Nivolumab ar gyfer carsinoma celloedd arennol datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol

Tachwedd 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir nivolumab (Opdivo) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion â charsinoma celloedd arennol datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych garsinoma celloedd arennol datblygedig, a bod eich meddyg yn credu mai nivolumab yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae carsinoma celloedd arennol yn fath o ganser arennol sy'n dechrau yn y celloedd yn y tiwbiau bach sy'n helpu i greu wrin. Pan fydd y clefyd yn ddatblygedig, mae'r canser wedi ymledu y tu mewn i'r aren, a gall fod wedi ymledu y tu allan i'r aren.

Mae nivolumab yn gyffur sy'n helpu system imiwnedd y corff i adnabod a dinistrio celloedd canser. Caiff ei roi drwy bigiad.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Canser yr Aren y DU](#), 0800 002 9002
- [Ymchwil Arennau y DU](#), 0300 303 1100
- [Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol](#), 0845 601 0209
- [Cymdeithas Cleifion Arennau Prydain](#), 0142 054 1424
- [Rhwydwaith Cymorth Canser yr Aren](#), 01209 890326 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2314-4